TIM IEUENCTID COBRA - PENCAMPWYR YR ŴYL BAN GELTAIDD 2012



Mae'r tîm cymharol ifanc yma a leolir yn nyffryn hardd Meifod wedi adeiladu ar ei lwyddiant mewn cystadlaethau lleol drwy ennill cystadleuaeth Rygbi yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Swydd Carlow, Iwerddon. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn yr ail safle yn adran 1 Cynghrair Gogledd Cymru ac os cânt un canlyniad da mae posibilrwydd cryf y byddent yn bencampwyr y gyngrair. Maent hefyd yn y rownd gyn-derfynol o gwpan Gogledd Cymru a byddant yn cynrychioli Gogledd Cymru yng Nghwpan Ieuenctid Cymru. Doedd dim syndod fod y bechgyn lleol yma sy'n dod o ddalgylchoedd Llanfair a Llanfyllin yn llawn hyder wrth ddechrau ar eu taith 4 diwrnod i'r Iwerddon.

Dyma'r tro cyntaf i'r Ŵyl Ban Geltaidd gyfuno diwylliant a chwaraeon yn yr ŵyl. Rygbi oedd yr unig gystadleuaeth chwaraeon ac roedd y bechgyn yn edrych ymlaen yn eiddgar at y her o'u blaen.

Ar y diwrnod cyntaf roedd yn rhaid i'r bechgyn chwarae tair gêm 40 munud. Roedd hyn yn gofyn cryn dipyn o'r bechgyn ond llwyddwyd i ennill pob gêm gyda phob un o'r tîm yn rhoi cant y cant. Aeth 24 o fechgyn ar y daith gyda 3 hyfforddwr (Steve Horne, hyfforddwr, Daren Mayor, cynorthwy-ydd a Phil Lewis, hyfforddwr a rheolwr y tîm) ynghyd â thri cefnogwr. Rhoddodd y bechgyn lysenw arbennig i'r tri sef 'y tri amigo', sef Alan Jukes, John Williams ac Alwyn Hughes.

Erbyn yr ail ddiwrnod roedd yr ergydion a'r cleisiau yn dechrau cael effaith ar y bechgyn ond doedd dim amser i lyfu briwiau! Roedd y gêm derfynol yn un gyffrous iawn yn erbyn clwb Swydd Carlow. Roedd hi'n gêm galed a chystadleuol iawn gyda bechgyn Sir Drefaldwyn yn tyrchu'n ddwfn ac yn llwyddo i ennill 16 pwynt i ddim. Llongyfarchiadau i bob un o'r sgwad am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb. Gyda'r tymor yn dirwyn i ben gwyddom y byddwn yn gorfod ffarwelio â sawl un ohonynt a dymunwn yn dda iddynt. Felly os hoffech chi fod yn rhan o'r clwb llwyddiannus yma ymunwch â ni i hyfforddi ar gyfer tymor 2012/2013 ym mis Gorffennaf. Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan www.cobrarfc.co.uk am fwy o wybodaeth.

Alan, John ac Alwyn y 'tri amigo'